YSGOL Y PRESELI

Y Garreg Las

Cylchlythyr y Gwanwyn

Spring Newsletter

Ffôn: 01239 831406

Rhif Llinell Absenoldeb: 01239 831009

E-bost: swyddfa@ysgolypreseli.com

Gair y Pennaeth

Ers y rhifyn diwethaf, mae llawer wedi newid yn yr ysgol. Yn dilyn ymddeoliad Mr Michael Davies a Mrs Iola Phillips ac yn dilyn penodiad Mr Dafydd Hughes yn Bennaeth ar Ysgol Caer Elen, mae gan Ysgol y Preseli dîm arwain newydd. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Dirprwy, Mrs Carwen Morgan Davies a'r Penaethiaid Cynorthwyol sef Mr Owen Thomas, Miss Nia Williams a Mrs Catrin Jones am eu hymroddiad cyson wrth gyflawni eu cyfrifoldebau newydd. Edrychwn ymlaen at arwain yr ysgol gan sicrhau bod pob plentyn yn gwireddu eu potensial a hynny mewn awyrgylch gartrefol Gymreig.

Mae'r rhifyn yma o'r Garreg Las yn un gwahanol iawn i'r arfer. Nid yn unig dyma'r tro cyntaf i mi gyflwyno fy neges fel Pennaeth newydd Ysgol y Preseli ond dyma rifyn sy'n dathlu llwyddiannau yng nghyfnod gwahanol iawn i'r arfer. Pleser yw cael cyflwyno i chi detholiad o lwyddiannau disgyblion a darpar ddisgyblion yr ysgol, y cyfan oll wedi'u cyflawni yn ystod y cyfnod clo diweddar. Mae cyfathrebu gyda rhanddeiliaid yr ysgol yn gyson wedi bod yn hollbwysig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae'r ysgol wedi gwneud defnydd helaeth o dudalen Facebook yr ysgol i rannu negeseuon gan gynnwys fy neges diwedd wythnos. Os nad ydych wedi hoffi ein tudalen Facebook eto, awgrymaf eich bod yn gwneud er mwyn derbyn y newyddion diweddaraf o'r ysgol.

Heb os, mae disgyblion a staff yr ysgol wedi gweithio'n ddiflino i gyflwyno addysg o'r radd flaenaf ond hefyd i ddarparu cyfleoedd di-ri i ddisgyblion arddangos eu talentau amrywiol. Am dalent! Mawr hyderaf byddwch yn mwynhau pori trwy'r rhifyn yma o'r Garreg Las sy'n dathlu llwyddiannau a thalentau disgyblion.

Ac i chi ddisgyblion blwyddyn 6, edrychaf ymlaen yn fawr i rannu mwy o'ch llwyddiannau unwaith i chi drosglwyddo atom ym mis Medi eleni. Mae'r gwaith rydych yn cyflawni gyda Mrs Gaynor Lewis yn wych a gallaf weld bod ambell ffotograffydd talentog iawn yn eich plith! Fel cyn-bennaeth Celf a Ffotograffiaeth rwy'n edrych ymlaen yn arw i weld eich talentau boed hynny ar bapur, ar lwyfan neu ar y cae chwarae. Beth bynnag eich talent, ewch amdani!

Erbyn hyn, mae'r disgyblion wedi dychwelyd i'r campws ac edrychaf ymlaen yn arw i weld disgyblion yr ysgol yn parhau i lwyddo a hynny mewn amgylchedd iach a diogel. Er nad ydym wedi dychwelyd i fywyd arferol ysgol mae gweld y disgyblion nôl ar gampws, yn derbyn addysg wyneb i wyneb ac yn derbyn y cyfle gymdeithasu eto yn bleser. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Panel Iechyd a Diogelwch sydd wedi cwrdd yn wythnosol i sicrhau bod systemau a gweithdrefnau'r ysgol mewn lle.

Hoffwn hefyd ddiolch i staff a Llywodraethwyr yr ysgol sydd wedi fy nghefnogi yn ystod fy nhymor cyntaf fel Pennaeth ar yr ysgol arbennig yma. Braint ac anrhydedd yw cael arwain ysgol sy'n rhoi pob cyfle i ddisgyblion lwyddo, yn academaidd, yn allgyrsiol ac yn bersonol.

Yn y cyfamser, cadwch yn iach, cadwch yn ddiogel a chofiwch ddysgu byw!

Yn gywir

Mrs Rhonwen Morris

A Message from the Headteacher

Since the last issue, much has changed in the school. Following the retirement of Mr Michael Davies and Mrs Iola Phillips and following the appointment of Mr Dafydd Hughes as Head teacher of Ysgol Caer Elen, Ysgol y Preseli has a new leadership team. I would like to thank the Deputy, Mrs Carwen Morgan Davies and the Assistant Heads, Mr Owen Thomas, Miss Nia Williams and Mrs Catrin Jones for their dedication in fulfilling their new responsibilities. We look forward to leading the school ensuring that all children realise their potential in a homely Welsh atmosphere.

This issue of Y Garreg Las is a little different. Not only is this the first time that I have presented my message as the new Headteacher of Ysgol y Preseli but this is an edition that celebrates the successes of pupils during a time which has been very different to the norm. It is a pleasure to present to you a selection of the pupils and prospective pupils successes, all of which have been achieved during the recent lockdown. Communication with all stakeholders has been vital over the past year and we have made extensive use of the school's Facebook page to share news including my end of week message. If you have not yet liked our Facebook page, please do so that you can receive the latest news from the school.

Undoubtedly, both pupils and school staff have worked tirelessly to deliver and provide exemplary education but also to provide countless opportunities for pupils to demonstrate their diverse talents. What talent! I very much trust that you will enjoy browsing through this edition of Y Garreg Las which celebrates pupils' achievements and talents.

For those pupils who are currently in year 6, I very much look forward to sharing more of your achievements once you transition to us in September this year. The work you are carrying out with Mrs Gaynor Lewis is fantastic and I can see that there are a number of very talented photographers among you! As a former head of Art and Photography I am very much looking forward to seeing your talents whether they be on paper, on stage or on the playing field. Whatever your talent, go for it!

The pupils have now returned to campus and I very much look forward to seeing the pupils continue to succeed in a healthy and safe environment. Although we have not returned to normal school life it is a pleasure to see the pupils back on campus, receiving face-to-face education and making the most of the opportunity to socialise again. I would like to thank the Health and Safety Panel who have met weekly to ensure that the school's systems and procedures are in place. I would also like to thank the school's staff and Governors who have supported me during my first term as Headteacher of this special school. It is a privilege and an honour to lead a school that provides pupils with every opportunity to succeed be that academically, through extra-curricular activities and personally.

In the meantime, stay healthy, stay safe and Cofia Dysgu Byw!

Yours sincerely

Mrs Rhonwen Morris

Gair gan Gadeirydd y Corff Llywodraethol Cysgodol yr Ysgol Newydd 3—19 yng Nghrymych

Mae'n gyfnod hynod gyffrous yn hanes Addysg Gymraeg yn Sir Benfro. Hon fydd yr Ysgol gyntaf Gymraeg gydol oes 3-19 oed yn y Sir.

Er yn ddiwedd cyfnod gydag Ysgol Gynradd y Frenni ac Ysgol Uwchradd y Preseli yn cau, edrychwn ymlaen yn hyderus a chamu i'r dyfodol. Mae siwrne gyffrous o'n blaenau yn ystod y flwyddyn nesaf, wrth i ni sefydlu ysgol newydd ar gyfer plant a phobl ifanc yr ardal. Er bydd adeiladau'r ddwy ysgol ar wahân, rydym fel corff am weld undod a bod y disgyblion a'r staff yn dod ynghyd a chymryd y camau nesaf gyda'i gilydd fel ein bod yn darparu addysg o'r radd flaenaf gyda chontinwwm addysgol ac ieithyddol. Cychwyn taith yw hon ond wrth gydweithio mi allwn sefydlu cyfleoedd o'r newydd i blant a phobl ifanc y dalgylch.

Mae'r Ysgolion yn rhai llwyddiannus, sydd yn hyrwyddo addysg Gymraeg o radd flaenaf, safonau uchel a chanlyniadau arbennig. Yn ogystal â safonau academaidd uchel mae'r ysgolion hefyd yn cynnig amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol sydd yn cynnwys perfformiadau theatrig, chwaraeon, cerddoriaeth, ymweliadau, clybiau a chymdeithasau. Rydym am weld hyn yn parhau a datblygu.

Bydd y Pennaeth newydd yn cael cefnogaeth gadarn gan y Corff Cysgodol yn ystod y cyfnod cyntaf o baratoi'r Ysgol newydd i agor. Rydym am benodi a chael Pennaeth ar gyfer yr Ysgol mewn lle erbyn Medi 2021 gan fydd yr Ysgol newydd yn agor yn Ebrill 2022. Rydym am Bennaeth sydd â gweledigaeth ac am gyflawni'r nod o gael pawb i wneud eu gorau glas, i sicrhau bod pob plentyn yn cyrraedd ei wir botensial, yn academaidd, yn gymdeithasol ac yn bersonol mewn cymuned hapus, barchus a chartrefol Gymreig.

Hyderaf y bydd y nodyn hwn yn rhoi syniad i chi o sefyllfa gyfredol yr ysgolion; ynghyd â'n syniad â'n gallu i uno dwy Ysgol a sefydlu Ysgol newydd unedig o'r radd flaenaf, gan sicrhau partneriaeth a gweledigaeth gadarn i'r dyfodol. Rydym ar ddechrau ein taith o greu a sefydlu'r Ysgol newydd hon; mi wnewn eich diweddaru o unrhyw ddatblygiadau yn ystod y misoedd sydd i ddod.

Yn gywir

Mrs Anwen Eleri a Mr Carwyn James

Anwen Eleri Bowen: Cadeirydd Corff Cysgodol y Llywodraethwyr

Carwyn James: Is gadeirydd Corff Cysgodol y Llywodraethwyr

A message from the Chair of the Shadow Governing Body for the new 3—19 School in Crymych

This is an exciting time in the history of Welsh Education in Pembrokeshire. This will be the first welsh-medium 3-19 school in the county.

Although it will mean the end of an era for two schools with the closure of Ysgol y Frenni Primary School and Ysgol y Preseli, we look forward with confidence to the future. Over the next year there is an exciting journey ahead of us as we establish a new school for the children and young people of the area. Although the buildings of both schools will be separate, we as a governing body want to see unity and that the pupils and staff unite and take the next imperative steps together so that we provide a first-class educational and linguistic continuum. This is the start of the journey but in working together we can establish new opportunities for the children and young people of our catchment area.

The Schools are successful, promoting first-class Welsh-medium education, high standards and excellent outcomes. In addition to high academic standards the schools also offer a wide range of extra-curricular activities which include theatrical performances, sports, music, visits, clubs and societies. We want to see this continue and develop.

The new Headteacher will receive the support of the Shadow Governing Body during the first phase of preparing the opening of the new school. We want to appoint and have a Headteacher in place by September 2021 as the new school will open in April 2022. We want a Headteacher who has vision and who wants to achieve the goal of getting everyone to do their utmost, to ensure that all children reach their true potential, academically, socially and personally in a happy, respectful and Welsh community.

I trust that this note will give you an indication of the current position of the schools; together with our ideas and plans to merge two Schools and establish a new unified, world-class School, ensuring a strong partnership and vision for the future. We are at the beginning of our journey of creating and establishing this new School; we will keep you informed of any developments in the coming months.

Your sincerely

Mrs Anwen Eleri Bowen and Mr Carwyn James

Anwen Eleri Bowen: Chair of the Shadow Governing Body

Carwyn James: Vice-chair of the Shadow Governing Body

Blwyddyn 7 / Year 7

Cystadleuaeth Steddfod Ysgol - Yr Awen o Adre!- Llongyfarchiadau enfawr i'r holl ddisgyblion o flwyddyn 7 fu'n rhan o'r Eisteddfod Rithiol eleni- Yr Awen o Adre! Mae wedi bod yn bleser i weld gymaint ohonoch yn cymryd rhan yn yr amryw o weithgareddau ac yn gwthio eich hunain i geisio rhywbeth newydd. Diolch yn fawr iawn i bawb am ymgeisio a chofiwch y cymryd rhan sydd yn bwysig.

School Eisteddfod Competition - Yr Awen o Adre!- *Congratulations to all the year 7 pupils who took part in this year's Virtual Eisteddfod - Yr Awen o Adre! It has been a pleasure to see so many of you taking part in the various activities and pushing yourself to try something new. A big thank you to everyone and remember it's not the winning but the taking part that counts.*



Ffoto yr wythnos - Yn ystod y cyfnod clo bu nifer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn wythnosol yn y gweithgaredd ffoto yr wythnos. Roedd hi'n bleser i weld nifer yn mynd allan i ddatblygu eu sgiliau ffotograffiaeth. Da iawn chi.

Photo of the week - *During the lockdown a number of Year 7 pupils participated weekly in the photo of the week activity. It was a pleasure to see so many developing their photography skills.*



Comic Relief - Mae nifer o ddisgyblion blwyddyn 7 wedi bod yn brysur yn codi arian tuag at elusen Comic Relief. Mae rhai wedi bod yn brysur yn coginio, golchi ceir, seiclo, dyfalu sawl losin a cherdded milltiroedd. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu holl waith caled.



Comic Relief - *Many year 7 pupils have been busy raising money for Comic Relief. Some have been busy cooking, washing cars, cycling, guessing how many sweets and walking miles. I would like to thank everyone for all their hard work.*



Neges o ddiolch -

Hoffwn ddefnyddio'r cyfle yma i ddiolch i bawb ym mlwyddyn 7 am eu holl ymdrech dros y misoedd diwethaf. Mae wedi bod yn gyfnod anodd dros ben i bawb felly o waelod fy nghalon hoffwn bwysleisio pa mor ddiolchgar a balch ydw i o bob un ohonoch am eich holl waith caled, eich presenoldeb yn y gwersi byw ac am eich holl amynedd yn ystod y cyfnod clo yma. Chi wir wedi fy ngwneud yn Bennaeth Blwyddyn browd iawn. Diolch!

Message of thanks -

I would like take this opportunity to thank everyone in year 7 for all their efforts over the last few months. It's been a very difficult time for everyone so from the bottom of my heart I would like to emphasise how grateful and proud I am of you all for all your hard work, your attendance in live lessons and for all your patience during the lockdown. You have made me a very proud Head of Year. Diolch!

Blwyddyn 8 / Year 8

Yn ystod y tymor diwethaf mae nifer o ddisgyblion blwyddyn 8 wedi mynd ati'n llwyddiannus i gystadlu a dangos eu doniau yn ystod 'Yr Awen o Adref', Cystadleuaeth Ffoto'r Wythnos a Sioe Dalent 'Comic Relief' YSGOL Y PRESELI 2021. Dyma gip olwg o rai o'r disgyblion a wnaeth perfformio a dangos eu gwaith yn llwyddiannus yn ystod y cyfnod anodd hyn.

During the past term a number of year 8 pupils have successfully competed and showcased their talents during 'Yr Awen o Adref', 'The Weekly Photography Competition' and 'Ysgol Y Preseli – Comic Relief Talent Show 2021'.

Here's a snapshot of some of the pupils who performed and demonstrated their talents during this difficult time.

'Steddfod Ysgol 2021 Ysgol y Preseli

Yr Awen o Adre'



Un bore wrth godi o'r gwely,
Wel dyna lle wên i yn crynu;
Wê'r rads i gyd bant,
A'r tŷ meinws cant –
A minnau yn ysgwyd fel jeli!

Zoe Thomas **Llew John**



Gwen Morgan

Actio / Acting

Mared Phillips

Perfformio / Performing

Megan King

Barddoni / Poetry

Holly Forster

Perfformio / Performing

Enillwyr o Gystadleuaeth Ffoto'r Wythnos

Winners from 'The Weekly Photography Competition'

Patrymau a Gweadau yn yr Awyr Agored – Fabienne Rolt

'Fy Milltir Sgwar' – Gwen Morgan

'Dŵr' - Owen McLoughlin

Blwyddyn 9 / Year 9



Ffoto yr Wythnos - Dyma dim ond ambell un o'r ffotos gwych gan ddisgyblion Blwyddyn 9 yn ystod y cyfnod Clo

Photo of the Week *- Here are just a few of the excellent photos taken by Year 9 pupils during the latest school closure. (Cadi Moore, Tomos Isaac Davies, Shannon Moyse)*

Yr Awen o Adre

EISTEDDFOD RHITHIOL YSGOL Y PRESELI 2021

Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gymryd rhan!

Congratulations to all who took part!

Cystadleuaeth Celf (Bl.7-9) - 1af Ella Hargreaves (Cleddau)

Art Competition (Yr.7-9) - 1st Ella Hargreaves (Cleddau)

Enfys Wheeler (Nyfer)
Unawd Offerynnol (7-9) 3ydd
Ffotograffiaeth (7-9) 1af
Adrodd Digri (7-9) 3ydd

Enfys Wheeler (Nyfer)
Instramental solo (7-9) 3rd
Photography (7-9) 1st
Comical recital (7-9) 3rd

Manon Elster Jones (Taf)
Unawd Lleisiol (7-9) 1af
Adrodd Digri (7-9) 2il
Perff. Ben Bwrdd (7-9) 1af
Monolog (7-9) 3ydd

Manon Elster Jones (Taf)
Singing solo (7-9) 1st
Comical recital (7-9) 2nd
Tabletop performance (7-9) 1st
Monologue (7-9) 3rd

Gethin O'Connor (Cleddau)
Limimrig (7-9) 1af

Gethin O'Connor (Cleddau)
Limerick (7-9) 1st

Tomos Isaac Davies (Cleddau)
Gwaith Digidol (7-9) 1af
Ffotograffiaeth (7-9) 3ydd

Tomos Isaac Davies (Cleddau)
Digital work (7-9) 1st
Photography (7-9) 3rd

Molly James (Cleddau)
Monolog (7-9) 1af

Molly James (Cleddau)
Monologue (7-9) 1st

Blwyddyn 10 / Year 10

Comic Relief

Byddai'n wir i ddweud ein bod ni wedi cael blwyddyn go wahanol eto eleni. Er i ni ymgartrefu'n ôl yn yr ysgol yn ystod Tymor y Nadolig, gwahanol iawn oedd Tymor y Gwanwyn. Dyma gyfnod hir iawn yn y cartref unwaith yn rhagor. Er hyn oll rhaid diolch i bawb am eu hymroddiad tuag at eu cyrsiau TGAU a'u brwdfrydedd wrth gyflwyno gwaith a thasgau allgyrsiol o'r cartref.



Dwi am ddathlu ymdrechion disgyblion tuag at y tasgau amrywiol yma sydd wedi dod a goleuni i ni yn ystod cyfnod digon anodd. Diolch i bawb am bob ymdrech i fwynhau a bod mor greadigol â phosib o'r cartref.

Dyma ambell lun i chi fwynhau.

Eisteddfod ysgol — Yr Awen o adre



Jake

Aled

It would be true to say that we've had a very different school year this year so far. After settling back into school for the Christmas term our spring term was the polar opposite. This has been a whole term working from home once again. However, I would like to thank all students for their dedication towards their GCSE courses and their enthusiasm towards their work and extra-curricular tasks from home.

I would like to celebrate all the efforts made by the students during this lockdown period to complete the extra-curricular tasks set by the school. They really did bring some joy to us all. Thank you all for being so creative and full of life from home.

Here are a few photos for you to enjoy.

Ffoto yr Wythnos / Photo of the week



Y Chweched Dosbarth / Sixth Form

Grŵp Amrywiaeth a Chydraddoldeb
Mae aelodau'r Grŵp Amrywiaeth a Chydraddoldeb wedi mynychu cyfarfodydd lle trafodwyd y problemau mwyaf amlwg ynghylch hiliaeth, ond hefyd, sut i atal y problemau yma. Mae'r cyfnod clo wedi effeithio ar y cyfarfodydd yma gan nad ydym wedi cael y cyfle i gwrdd wyneb yn wyneb i drafod yr ymgyrch. Ond, rydym wedi parhau i ddatblygu ein gwybodaeth a dealltwriaeth ac wedi ymdrechu i godi ymwybyddiaeth ac addysgu eraill. Dyma beth oedd gan aelod o Flwyddyn 12 i ddweud am y weminar diweddar mynychodd rhai o'n disgyblion ar y cyd gyda phedair ysgol arall o Lundain:

'Yn ystod y webinar, cawsom ein haddysgu ar yr effaith o golli momentwm ar yr ymgyrch BLM. Mae momentwm yn ffactor sydd yn hanfodol er mwyn bod yn llwyddiannus wrth hyrwyddo ymgyrch, tebyg i BLM. Sonir hefyd am broblemau fel misogynoir sef y ffurfiau unigryw o ormes mae menywod ethnig yn eu wynebu a'r addewid 'Halo Code'. Mae'r Halo Code yn addewid wedi'i lofnodi gan ysgolion a busnesau, sy'n addo i'r gymuned Ddu fod ganddyn nhw'r "rhyddid a diogelwch i wisgo pob steil gwallt afro heb gyfyngiad na barn".

Yn y webinar, trafodwyd yr hiliaeth ddiarwybod sydd yn parhau i fodoli yn ein cymunedau heddiw ac yn enwedig wrth ystyried mynediad at ofal iechyd. Credwn yn gryf ni ddylai hil na chefndir unrhyw un cael effaith ar ei driniaeth feddygol. Mae'n siom i feddwl bod fath rhagfarn yn dal i ddigwydd ar lefel mor ddifrifol.

Er mwyn rhannu'r negeseuon pwysig yma ymhellach, rydym wedi cwrdd yn rhithiol gydag aelodau eraill o'r grŵp Amrywiaeth a Chydraddoldeb er mwyn codi ymwybyddiaeth. Rydym wedi derbyn adborth cadarnhaol o'n hathrawon a'n cyd-ddisgyblion a fynychodd ein cyflwyniad sy'n sicrhau ein bod ni yn llwyddo i addysgu eraill ac yn cymryd y camau cywir.'

Polisi Sylwadau a Throsedd Casineb Ysgol y Preseli
Eleni, rydym wedi bod yn gweithio ar bolisi Sylwadau a Throsedd Casineb newydd ar gyfer Ysgol y Preseli. Wrth drafod gyda nifer o grwpiau gwahanol gan gynnwys swyddogion Heddlu Dyfed Powys, ysgolion eraill, llywodraethwyr a'r athrawon a disgyblion ein hysgol, rydym wedi llunio polisi clir ac effeithiol, sydd yn sicrhau tegwch i bawb.

Cynhaliwyd cyfarfod gydag aelodau'r grŵp Amrywiaeth a Chydraddoldeb er mwyn gwirio'r polisi, gan roi sylw agos i'r geiriad. Roedd hyn yn gyfle i ni ystyried gwaith yr athrawon a sefydliadau gwahanol wrth greu'r polisi, a chynnig ein mewnwelediad ni. Rydym yn hynod falch hefyd bod Yr Athro Charlotte Williams, Cadeirydd y Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd wedi cymeradwyo'r polisi.

Yn y dyfodol, hoffwn fuddsoddi mewn adnoddau gwahanol er mwyn ehangu ein gwybodaeth o faterion yn ymwneud gyda chydraddoldeb. Yn benodol, byddwn yn edrych ar ddarnau ffuglen a ffeithiol gan awduron o gefndiroedd gwahanol, er mwyn dysgu am ddiwylliannau, traddodiadau ac ethos amrywiol.

Dywedodd disgybl o Flwyddyn 13: 'yn ddiweddar, darllenais lyfr o'r enw 'We Should All Be Feminists' gan Chimamanda Ngozi Adichie, awdures o Nigeria. Traethawd byr oedd hon, a theimlaf ei bod hi wedi cyfoethogi fy ngwybodaeth o ddiwylliant Nigeria yn bellach. Dyma'r fath o beth rydym ni am agor i ddisgyblion eraill yr Ysgol.'

Ein bwriad yw i gynnig amrywiaeth o destunau, er mwyn sicrhau mynediad i bawb i ehangrwydd o wybodaeth, ac hefyd llenyddiaeth o wledydd gwahanol. Fan hyn, bydd disgyblion ac athrawon yn gallu trafod nofelau amrywiol a darnau ffeithiol, awgrymu rhai darnau i'w gilydd a chyfoethogi eu gwybodaeth.

Adroddiad Llywodraeth Cymru
Ar Fawrth 19eg, cyhoeddwyd adroddiad diweddaraf y Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn falch iawn bod Ysgol y Preseli wedi chwarae rhan flaenllaw wrth ysgrifennu'r adroddiad a bod ein gwaith wedi'i hadnabod fel astudiaeth achos yn yr adroddiad. Dyma ddolen gyswllt i'r adroddiad:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiaidd-lleiafrifoedd-ethnig-cwricwlwm-newydd-adroddiad-terfynol.pdf

Diversity and Equality Group

Members of the school's Diversity and Equality Group attend meetings and events where matters such as race, equality and diversity are discussed. Due to the current restrictions, we have been unable to meet in person, however, we have continued to develop our knowledge and understanding of these important issues. We have also made a conscious effort to raise awareness and educate others. Some members of the group attended a webinar with four other schools in London recently and this is what a student from Year 12 said about their experience of attending the webinar:

'During the webinar, we were educated on the influence of momentum in relation to the BLM movement. Momentum is clearly an important factor in promoting such a movement which can have far-reaching consequences for so many people. We discussed current issues including misogynoir and the Halo Code: both key issues which can have a significant impact on a person's daily life.

Unconscious racism is a term we have become more familiar with as we continue to develop our knowledge and understanding surrounding the issues faced by people from minority ethnic backgrounds. This was discussed further in the webinar, with a particular focus on the impact a person's ethnicity can have on their access to medical care– this has become increasingly evident in the past year due to Covid-19. It is shocking and disappointing to us that this bias continues to be prevalent in today's society.

In order to share these key messages with a wider audience, we have met virtually with other members of our group in order to raise their awareness of these important discussions. Following this meeting, we have received positive feedback from other pupils and staff members. We are very pleased therefore that we are able to educate others as we continue to develop our own understanding.

Ysgol y Preseli Hate Speech and Crime Policy

This year, we have written a new Hate Speech and Crime Policy for Ysgol y Preseli. Following discussions with different groups of people including officers from Dyfed Powys Police, other schools, governors, teachers and students of our school, we have written a clear and effective policy, which ensures fairness for all.

A meeting was held with the members of the School's Diversity and Equality group in order to review the policy, giving close attention to the wording. This was an opportunity for us to consider the teacher's and organisations' work, and offer our insight. We are very pleased that Professor Charlotte Williams, the Chair of the Welsh Government's Black, Asian and Minority Ethnic Communities, Contributions and Cynefin in the New Curriculum Working Group supported the policy.

In the future, we'd like to invest in different resources in order to expand our knowledge of matters to do with equality. Specifically, we'll look at fictional and factual works by authors from diffrent backgrounds, to learn about cultures, traditions and various ethos.

One Year 13 student said: ' I have recently read a book called 'We Should All Be Feminists' by Chimamanda Ngozi Adichie, an author from Nigeria. This was a short essay, and I feel that it has further enriched my knowledge of Nigeria's culture. It's something like this that we'd like to open up to the other pupils.'

Our intention is to have a supply of resources, in order to ensure access for everyone to a range of information, and also to literature from various countries. Here, pupils and teachers will be able to discuss various novels and factual pieces, suggest certain texts to each other and enrich their knowledge.

Welsh Government Report

On March 19th, the latest and final report of the Black Asian and Minority Ethnic Communities, Contributions and Cynefin in the New Curriculum Working Group was published by Welsh Government. We are extremely pleased that Ysgol y Preseli has played a key part in writing this report and that our approach to promote inclusion has been shared as an example of best practice. You can read the report by following this link:

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-03/black-asian-minority-ethnic-communities-contributions-cynefin-new-curriculum-working-group-final-report.pdf

Y Chweched Dosbarth / Sixth Form

Llysgenhadon Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Llongyfarchiadau i Sara, Megan a Gwenno o flwyddyn 12 ar gael eu dewis fel 3 o'r 14 Llysgennad Ysgol i'r @Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Eu prif rôl fydd ysbrydoli eu cyfoedion yn yr ysgol i barhau gyda'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol a thu hwnt. Bydd y cynllun peilot yma yn ffordd i'r Coleg gynnal perthynas agos gyda'r disgyblion yn ogystal â rhoi profiadau a sgiliau gwerthfawr iddyn nhw.

Yn ôl Gwenno:
"Ro'n i isho bod yn un o Lysgenhadon Ysgol y Coleg Cymraeg oherwydd fy mod eisiau gweld mwy o bobl yn mwynhau astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ysu i'w defnyddio o ddydd i ddydd. Dwi eisiau hysbysu pobl sut mae'r Gymraeg yn gallu agor cymaint o ddrysau i'r dyfodol gan fod cyflogwyr yn hoff o weithwyr dwyieithog. Dw i eisiau dangos hefyd sut mae addysg trwy'r Gymraeg yn mynd i gael effaith gadarnhaol ar fywydau pob un tu hwnt i'r ysgol a phrifysgol neu brentisiaeth yn y byd gwaith."

Mwy am y cynllun yma:

https://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/llysgennadysgol/

Coleg Cymraeg Cenedlaethol- School Ambassadors

Congratulations to Sara, Megan and Gwenno from year 12 for being chosen as 3 of the 14 School Ambassadors for the Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Their main role is to inspire their peers to continue their education through the medium of Welsh at university and beyond. This pilot scheme is a way for the Coleg to maintain a close relationship with pupils as well as providing them with valuable experiences and skills.

Gwenno James says:
"I wanted to be a Coleg Cymraeg School Ambassador because I want to see more people enjoying studying through the medium of Welsh and being eager to use it on a daily basis. I want to highlight to people how the Welsh language can open so many doors to the future, because employers appreciate having bilingual workers. I also want to show how education through the medium of Welsh is going to have a positive impact on everyone's lives beyond school, university or apprenticeship, in the world of work."

More about the scheme here:
https://www.colegcymraeg.ac.uk/en/study/schoolambassadors/

Cymraeg / Welsh

SEREMONÏAU CADEIRIO—DYDD GŴYL DEWI

Er gwaetha'r cyfyngiadau eleni, fe lwyddwyd i gynnal cystadleuaeth y Gadair ac ar brynhawn Llun, Mawrth 1af, fe ffrydiwyd ar-lein seremoniau i anrhydeddu beirdd y gadair Iau ac Hŷn. Roedd y gwaith o gyfansoddi'r cerddi wedi ei gwblhau rai wythnosau yng nghynt a braf oedd gweld nifer dda o ddisgyblion wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth. Cyfansoddi cerdd ar y testun 'Enfys' oedd yr her i'r Ysgol Iau a 'Gwawr' oedd y sbardun i'r disgyblion Hŷn. Rhoddwyd y dasg o feirniadu'r cerddi i Mr Eifion Daniels a diolch iddo am ei waith. Gwenan Scourfield o flwyddyn 7 oedd enillydd y Gadair Iau, gyda Hâf Davies o flwyddyn 10 yn cipio'r Gadair Hŷn. Ymfalchïwn yn eu dawn a gobeithio'n fawr y byddwn yn darllen mwy o ffrwyth eu hawen yn y dyfodol.

Canlyniadau'r Gadair Hŷn / *Senior Chair Results*: 1. Hâf Davies 2. Begw Fussell a Nia Lewis 3. Lefi Dafydd
Canlyniadau'r Gadair Iau / *Junior Chair Results*: 1. Gwenan Scourfield 2. Iago Fussell 3. Cerys Jones a Zoe Thomas

Despite this year's restrictions, we managed to hold our chairing ceremonies which were streamed on St David's day. The task for the lower school was to compose a poem on the topic 'Enfys' – 'Rainbow' and 'Perthyn' – 'Belonging' was the topic for years 10 and above. Mr Eifion Daniels adjudicated the poems and we must thank him for his work. Gwenan Scourfield won the junior chair, and Hâf Davies was the senior chaired bard. We are proud of their success and hope that they will continue to compose poetry.

ADOLYGU AR-LEIN

Ar Ionawr 7fed, cafodd disgyblion blwyddyn 12 gyfle i wrando ar ddwy ddarlith Gymraeg ar destunau gosod y fanyleb fel rhan o noson rithwir Prifysgol Abertawe. Hefyd, ar fore Gwener, Chwefror 12fed, bu'r disgyblion yn gwrando ar Yr Athro Mererid Hopwood, Pennaeth Adran Gymraeg CPC Aberystwyth yn cyflwyno'r gerdd 'Preseli' gan Waldo Williams. Elen Roach, cyn-ddisgybl o'r ysgol sy'n cydlynu'r sesiynau hyn fel rhan o'i gwaith marchnata i adran Gymraeg y brifysgol.



Year 12 pupils have been fortunate to participate in on-line lectures arranged by Swansea and Aberystwyth Universities during the term. These sessions have been based on the texts studied at AS level and have undoubtedly proven beneficial to the students' understanding.

Y TALWRN COLL– PODLEDIAD CLERA

Yn ddiweddar, clywyd lleisiau criw o'r chweched yn cymryd rhan yn y Talwrn Coll sef cystadleuaeth farddoni a'r ysgolion uwchradd aeth benben â'i gilydd oedd – Ysgol Glan Clwyd, Ysgol Llangefni ac Ysgol y Preseli. Sganiwch y côd QR i wrando ar y podlediad ac i glywed tri o fechgyn y chweched yn canu'r gân wnaethon nhw ysgrifennu ar dôn 'Hymns and Arias' Max Boyce! Tri tenor nesa' Cymru?!

Recently, a group of pupils from year 12 took part in a poetry competition between three Welsh Secondary Schools – Glan Clwyd, Llangefni and Preseli. Scan the QR code to listen to the podcast 'Clera' and a chance to enjoy a performance by three of the sixth form boys singing the lyrics they composed to the tune 'Hymns and Arias'! Wales's next boy band?!

Saesneg / English

Er gwaetha'r clo, cafwyd nifer o geisiadau ar gyfer adrannau hŷn a iau cystadleuaeth y Goron. Beirniadwyd y gystadleuaeth gan Mrs R Cummins a chynhaliwyd y seremoni arlein. Llongyfarchiadau gwresog iawn i bawb, ac yn enwedig i'r ddwy a goronwyd eleni, sef Gwen Morgan o Flwyddyn 8 ac Emily Davies o Flwyddyn 13.

Rainbow

So white light is split as it passes through water,
It slows down and shows us the colours in order,
To learn all the colours is ohh such a pain,
Try Richard Of York Gained Battle In Vain.

All this talk of refraction is such a distraction,
Which calls for some action ...
Let's go!
To see it what it is that gives such a fizz,
When you see a double rainbow.

All the colours in the sky,
The rainbow is the one that glows so high,
Through thick or thin there it shines,
Bringing hope to the world one slow step at a time.

We've seen its presence often this year,
With the pandemic that's struck some full of fear,
But there it stands a beacon that flies,
Bringing hope to the world in these anxious times.

When lucky we see its bright brilliant glow,
On badges and banners and windows we know,
Saying thanks, saying welcome to the wide community
It's good to be different and that's cool with me.

Rainbows stand visible to be seen from all around,
They span mountains and rivers, and cross common ground,
Rising majestic and proud from our beautiful land,
They reach out to us all and look so grand.

A rainbow brings peace and hope to us all,
When we look up our worries can't help but fall,
It's a symbol for the NHS and LGBTQ,
The wizard of Oz and pots of gold all yellow in hue.

So there you have it, what a glorious arc
It makes me feel happy and gives me a spark,
A stripe of all colours bending so high,
Filling our hearts with hope in the sky.

Written By Captain Nuts

Despite the lockdown, a high number of entries were received in both the junior and senior section of the Crown poetry competition. The entries were judged by Mrs R Cummins and the ceremony was conducted online.

'AUBADE' REVISITED- FOR PHILIP LARKIN.

"NOT SEEING, THAT THIS IS WHAT WE FEAR- NO SIGHT, NO SOUND, NO TOUCH OR TASTE OR SMELL, NOTHING TO THINK WITH, NOTHING TO LOVE OR LINK WITH."- AUBADE, PHILLIP LARKIN, (1977).

Each morning, as daybreak shakes man awake,
A shadow shivers, awaiting its grave,
Your 'soundless dark' and the escape it gave-
Gone. Leaving naught but emptiness to take.
You, a man reborn, cradled by the light,
You tremble in the turmoil of life's ties,
With chaos in the silence of your eyes,
The serene soaring sun winks at your fright.
Yet despite darkness, thy fear of demise,
Do not dispel Dawn, daybreaks that await,
Praise Helios! drive thy chariot high
In the skies above, into the Sunrise...
Bathe in golden beams to forget thy fate;
Embrace thy life for death is all too nigh.

Mathemateg / Mathematics

Sialens Mathemateg Canolradd UKMT, Chwefror 2021

Dewiswyd 16 disgybl o flynyddoedd 11, 10 a 9 i gymryd rhan yn Sialens Mathemateg Ganolradd, UKMT yn rhithiol ar y 4ydd o Chwefror eleni.

Llwyddodd Harry Walker o flwyddyn 9 i ennill tystysgrif 'Gorau yn yr ysgol', 'Gorau yn y flwyddyn' a thystysgrif Efydd. Enillodd Tim Chadwick o flwyddyn 10 a John Griffiths o flwyddyn 11 dystysgrifau 'Gorau yn y flwyddyn'. Yn ychwanegol i hyn derbyniodd Tim Chadwick a Nia Lewis, o flwyddyn 10 dystysgrifau Efydd.

Llongyfarchiadau iddynt hwy oll.

Intermediate UKMT Mathematics Challenge, February 2021

Sixteen pupils from years 11, 10 and 9 where chosen to take part in the virtual Intermediate UKMT Mathematics challenge on the 4th of February this year.

Harry Walker from year 9 was awarded the certificate for 'Best in school', 'Best in the year' and a Bronze certificate. Tim Chadwick from year 10 and John Griffith from year 11 were also awarded certificates for 'Best in year'. In addition to this Tim Chadwick and Nia Lewis from Year 10 received Bronze certificates.

Congratulations to them all.

UK INTERMEDIATE MATHEMATICAL CHALLENGE

Gwyddoniaeth / Science

Pwy ddywedodd nad yw Gwyddoniaeth yn bwnc creadigol?

Dyma enghreifftiau o rai o'r gweithgareddau mae disgyblion Ysgol y Preseli wedi bod yn gwneud yn ystod eu gwersi gwyddoniaeth y tymor hwn.

Who said Science isn't a creative subject?

Here are some examples of the activities our pupils have taken part in during their science lessons this term.

Dyma waith rhai o ddisgyblion blwyddyn 7 a bu'n creu 'model' o gell. Defnyddiodd rhai cerdyn a phapur, rhai eraill Minecraft, ond defnyddiodd un disgybl jeli gwyrdd a losin! Da iawn i bawb fu'n mor greadigol wrth greu eich modelau.

Here are examples of the 'models' of cells produced by some year 7 pupils. Some used paper and card, some used Minecraft, and one pupil even used green jelly and sweets! Well done for tackling the task with such creativity!





Bu disgyblion Ffiseg Blwyddyn 10 yn dysgu am donnau yn ystod y tymor.

Dyma arbrawf cafodd ei wneud gan y disgyblion wrth weithio o adre ar effaith dyfnder dwr ar fuanedd ton.

Year 10 Physics pupils learnt about waves this term.

Here is an experiment carried out by the pupils whilst working from home on how the depth of water affects the speed of waves.

Addysg Grefyddol / Religious Studies

Newidiadau Staff yn yr Adran ers Ionawr 2021 / Changes in the Departmental Staff since January 2021

Mrs Catrin Jones - Llongyfarchiadau mawr i Mrs Catrin Jones ar ei phenodiad fel CADY yr Ysgol dros gyfnod mamolaeth Mrs Sioned Booth-Coates.

Congratulations to Mrs Catrin Jones on being appointed the school's interim ALNCO.

Mrs Ffion Richards - Llongyfarchiadau mawr i Mrs Ffion Richards ar enedigaeth merch fach o'r enw Elain Grug.

Congratulations to Mrs Ffion Richards on the birth of her daughter Elain Grug.

Miss Charlotte Doyle a Mr Declan Owens
Yn sgil penodiad Mrs Catrin Jones fel CADY dros dro a chyfnod mamolaeth Mrs Ffion Richards penodwyd dau aelod i'r Adran Ddyniaethau. Bydd Miss Charlotte Doyle yn dysgu Addysg Grefyddol CA3 ynghyd ag Astudiaethasu Crefyddol CA4 a bydd Mr Owens yn dysgu Addysg GrefyddolCA3.

In light of the changes in the teaching staff within the Department, two new members of staff have been appointed. Miss Charlotte Doyle will be teaching KS3 as well as Religious Studies KS4 and Mr Declan Owens will be teaching Religious Education KS3 . A warm welcome to both.

Un o'r tasgau a osodwyd i Fl8 oedd i greu neges gyfoes ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi. Cafwyd gwaith graenus a negeseuon amserol iawn. Dyma rai enghreifftiau:

Diolch i Llew o ddosbarth 8P ac Abbie o ddosbarth 8E am eu cyfraniadau.

Add. Gref. - Neges Dewi Sant Heddiw - Llew / 8P

Annwyl deulu, ffrindiau, cymdogion, cyd-wladwyr a phobl y byd.

od rhyfedd fel yr un yr ydym yn byw ynddo ar hyn o bryd, w un gymuned ydym. Ni yw'r gymuned. Chi yw'r gymuned. Yr gymuned gyda'n gilydd.

vneud y pethau bychain, er mwyn bod o gymorth i phawb a phopeth. Drwy wneud y pethau bychain mae nhw'n tyfu i fod yn un peth mawr. Un peth mawr fydd yn helpu ni drwy'r cyfnod anodd yma.

Siaradwch gyda'ch teulu fel eich bod yn gwybod beth allwch wneud i'w helpu.

Holwch eich ffrindiau os oes rhywbeth y gallwch wneud i fod o gymorth i'r henoed sydd angen help yn eich ardal. Os oes modd, ffonwch y rhai yr ydych yn adnabod er mwyn bod yn glust neu yn gwmni am ychydig amser.

Neges Dewi Sant

Peidiwch byth â barnu unrhyw un yn seiliedig ar y ffordd maen nhw'n edrych, cofiwch fod pawb yn gyfartal! Does dim ots o ble maen nhw'n dod, neu beth maen nhw'n edrych fel, neu phwy maen nhw'n ffrindiau gyda, neu faint o arian sydd ganddyn nhw! Dylai pawb gael eu trin yr un peth bob amser.

One of the tasks for year 8 was to create a contemporary message for St David's Day. Excellent work was submitted once again. Here are two examples.

Thank your to Llew from class 8P and Abbie from class 8E for their contributions.

Addysg Grefyddol / Religious Studies

Gwaith dros y cyfnod Clo

Bu disgyblion Bl7 yn gwneud gwaith ar dirnodau crefyddol. Un o'r tasgau oedd i greu model 3D o'r Taj Mahal. Cafwyd gwaith rhagorol gan nifer o'r disgyblion. Diolch am yr ymdrechion gwych hyn (ac i rieni am eu cymorth!!). Dyma rai enghreifftiau o'r gwaith:

Work during Lockdown

Year 7 pupils have been completing work on Landmarks. One of the tasks was to create a 3D model of the Taj Mahal. Work od an excellent standard was submitted by many pupils. Many thanks for their efforts (and to the parents for their support!!).



Diolch / Thank you

Mari 7P, Teo 7T, Ela 7P a Iori 7P

Addysg Gorfforol / Physical Education



Roedd cadw'n iach yn ystod y cyfnod clo yn hollbwysig a braf oedd gweld disgyblion yr ysgol yn gwneud yn fawr o'r cyfnod i gadw'n ffit yn yr awyr agored. Gweler yma rhai o ddisgyblion TGAU Addysg Gorfforol Blwyddyn 11 yn cynllunio sesiynau ffitrwydd yn ystod y cyfnod clo.

Keeping healthy during lockdown was vital and it was pleasing to see pupils making the most of their time to keep fit outdoors. See here some year 11 GCSE PE pupils planning fitness sessions during lock-down.



Drama

EISTEDDFOD YSGOL

Cynhaliwyd 'Steddfod Ysgol, Yr Awen o Adre' o dan arweiniad yr adrannau Celfyddydau Mynegiannol ym mis Mawrth. Braf oedd gweld cymaint o ddisgyblion yn cystadlu o'u cartrefi a chael cyfle i rannu'r doniau creadigol sydd ganddynt. Diolch i bawb a wnaeth gystadlu, wnaethom ni wir fwynhau gwylio'ch gwaith chi.

yr Awen o Adre'
'STEDDFOD YSGOL 2021

SCHOOL EISTEDDFOD

At the beginning of March the Expressive Arts Departments came together to hold a virtual Eisteddfod. It was lovely to be able to share what the students had created from home with others through the school Facebook page. Thank you to all of the students that competed, we really enjoyed watching your performances.

CLYWELIADAU

Yn ystod y cyfnod clo, derbyniodd nifer o ddisgyblion y cyfle i wneud clyweliad ar gyfer drama deledu newydd ar S4C. Llongyfarchiadau i'r disgyblion sydd wedi cael eu gofyn i wneud ail glyweliad ar gyfer rhannau penodol a gobeithiwn y byddwn yn gweld eich wynebau ar S4C yn yr Hydref. Da iawn i bawb a gyflwynodd clyweliad—dylech chi fod yn falch o'ch hunain am wneud rhywbeth sy'n gofyn am dipyn o hyder!

S4C

AUDITIONS

During the lockdown period, many Key Stage 4 & 5 students received the opportunity to present an audition self tape for a new drama that is being filmed for S4C. Congratulations to those that have been asked to do a second audition for specific parts and we hope to see their faces on our tv screens in the Autumn term. Well done to everyone that put themselves forward—you should be proud of yourselves for taking part in something that asks for a lot of self-confidence to complete.

EISTEDDFOD T

EISTEDDFOD T

Braf yw gweld cymaint o ddisgyblion o'r ysgol yn dangos cynnwrf a pharodrwydd i gystadlu yn Eisteddfod T yr Urdd eleni. Mae'r disgyblion yn brysur yn paratoi eitemau unigol, grŵp a thorfol ac yn rhoi o'u hamser tu allan i oriau ysgol er mwyn ymarfer trwy eu sgriniau gliniaduron! Dyma fydd y tro cyntaf i ni fel adran i geisio gwneud Cyflwyniad Dramatig trwy wefan Zoom—dymunwch bob lwc i ni!

EISTEDDFOD T

Many of the students have shown both enthusiasm and willingness to take part in various competitions for the Urdd's Eisteddfod T this year. Due to being in lockdown, rehearsals are having to happen in their own time and after school hours. As a department we will be attempting our first group performance via video in order to compete in the Dramatic Performance category—wish us luck!!

Celf a Dylunio / Art and Design

Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 3 wedi derbyn y cyfle i ennill tystysgrif Arlunydd yr Wythnos yn yr Adran Gelf gyda disgyblion yn cynllunio astudiaethau amrywiol o batrymau brithwaith ym mlwyddyn 7, portreadau Picasso ym mlwyddyn 8 a thirweddau digidol ym mlwyddyn 9. Mae'r disgyblion wedi bod yn arbrofi gydag amrywiaeth o dechnegau wrth gwblhau'r astudiaethau hyn. Mae Blwyddyn 7 wedi mwynhau arbrofi gyda gemau dylunio digidol a dechrau uned newydd ar y thema Arwyr lle rydym yn cydweithio gyda'r pynciau celfyddydau mynegiannol. Mae Blwyddyn 8 wedi mwynhau arbrofi gyda nodweddion wyneb wrth astudio Portreadau Picasso tra bod Blwyddyn 9 wedi bod yn arbrofi mwy gyda thirweddau digidol yn arddull yr arlunydd David Hockney. Da iawn i bawb am eich holl waith arbrofi.







Key Stage 3 pupils have had the opportunity to gain an Artist of the Week certificate in the Art Department began in the Easter term with pupils designing various studies of tessellation patterns in year 7, Picasso portraits in year 8 and digital landscapes in year 9. The pupils have been experiment with a variety of techniques in completing these studies. Year 7 has enjoyed experimenting with digital design games and starting a new unit on the theme of Heroes where we work with the expressive arts subjects. Year 8 has enjoyed experimenting with drawing facial features and studying Picasso's Portraits while Year 9 have been experimenting more with digital landscapes in the style of artist David Hockney. Well done to everyone for all your experimentation.

Da iawn i bawb a wnaeth ddarn o gelf i'r Eisteddfod T a phob lwc yn y cystadlaethau. Mae'n bleser gweld amrywiaeth o waith yn cael eu cynhyrchu.

Well done to everyone who made a piece of art for the Eisteddfod T and good luck in the competitions. It is a pleasure to see a variety of work being produced.





Celf a Dylunio / Art and Design

Gweler yma waith gan ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 a 5 yn dylunio o'u ffotograffau sy'n seiliedig ar eu themâu dewisol. Mae'r disgyblion wedi treulio amser yn edrych yn ofalus ar siâp, ffurf a gwead gan arbrofi gyda deunyddiau gwahanol mewn grid. Symudwyd ymlaen i edrych ar liwiau cynnes ac oer er mwyn arbrofi gyda theimladau amrywiol y gwelir mewn darn o waith celf. Arbrofwyd gyda chreu celf yn defnyddio cysgodion a phatrymau sy'n ailadrodd. Bu rhai disgyblion yn creu darnau tecstilau ffeltio, peintio ar sidan a dylunio ffasiwn er mwyn trosglwyddo ar ddefnydd ac wrth greu stensil. Bydd yr astudiaethau yma'n cael eu datblygu ymhellach yn llyfrau braslunio'r disgyblion er mwyn creu syniadau ar gyfer darnau terfynol.



Here we see Key Stages 4 and 5 drawing from photographs attached to their chosen theme. Pupils have spent time looking carefully at shape, form and texture and experimenting with different materials in a grid. We moved on to look at warm and cool colours in order to experiment with the various feelings that can be seen in a piece of artwork. Pupils experimented with creating art using shadows and repeating patterns. Some pupils created felt textile pieces, silk painting and fashion illustrations with transfer paint to transfer onto material and by creating stencils. These studies will be further developed in pupils' sketchbooks to generate ideas for final pieces.





Cerdd / Music

Yr Awen o Adre' – Eisteddfod Ysgol y Preseli

Eleni penderfynwyd cynnal Cystadleuaeth i Gyfansoddi Ffanffer addas ar gyfer Seremonïau'r Gadair a'r Goron Eisteddfod Ysgol y Preseli 2021. Llongyfarchiadau i Lefi Dafydd am ennill y gystadleuaeth yma. Roedd ei ffanffer wedi cael ei berfformio i gyflwyno enillwyr y Gadair a'r Goron ar Ddydd Gŵyl Dewi. Gobeithiwn flwyddyn nesaf bydd y darn yma yn gallu cael ei berfformio'n fyw ar lwyfan Eisteddfod Ysgol Y Preseli.

This year the music department decided to hold a competition for pupils to compose a Fanfare for the school Eisteddfod ceremonies. Congratulations to Lefi Dafydd for composing the winning fanfare. A recording of the fanfare was performed to announce the winners during the Chairing and Crowning of the Bard Ceremonies on St David's Day. Let's hope next year that we can hear a live performance of the fanfare on the stage.

Diolch i bob un sydd wedi cystadlu yn 'Steddfod yr Ysgol eleni - Yr Awen o Adre'. Mae'r adran Gerdd yn browd iawn o'r holl gystadleuwyr. Dyma ganlyniadau'r cystadlaethau cerdd:

Many thanks to all the pupils that competed in our virtual school Eisteddfod this year. The music department is very proud of all the competitors. Here are the results of the music competitions:

Unawd Lleisiol Blwyddyn 7-9 / Year 7-9 Vocal Solo
Cydradd 1af: Gwenan Scourfield a Manon Elster-Jones
2il: Lleucu Davies
Gydradd 3ydd: Max Morris a Holly Forster

Unawd Lleisiol Blwyddyn 10-13 / Year 10-13 Vocal Solo
1af: Anna Likeman
2il: Seren Lewis
Gydradd 3ydd: Molly Thomas a Begw Fussell

Unawd Offerynnol Blwyddyn 7-9 / Year 7-9 Instrumental Solo
1af: Max Morris
2il: Seren Adams-Lewis
Gydradd 3ydd: Enfys Wheeler a Marc Morris

Unawd Offerynnol Blwyddyn 10-13 / Year 10-13 Instrumental Solo
Cydradd 1af: Annest Davies a Carys Underwood
2il: Lefi Dafydd
Cydradd 3ydd: Anna Likeman a Jake Watts

PercWorks Ambassador

Llongyfarchiadau i Carys am gael ei dderbyn i fod yn 'PercWorks Ambassador'. Am gyfle gwych. Bydd hyn yn cynnwys ysgrifennu blog pob tymor, yn ogystal â helpu gyda gweithdai a chyfweliadau. Bydd Carys hefyd yn cael y cyfle i gwrdd ag offerynwyr o fewn y proffesiwn a derbyn cefnogaeth o ran ei gyrfa gerddorol yn y dyfodol.

Congratulations to Carys on becoming a PercWorks Ambassador. What a fantastic opportunity for her. She will be writing a termly blog and helping with some of the workshops and interviews. They will introduce Carys to their contacts in the industry and generally advise her on her future career.

Cerdd / Music

Coleg Brenhinol Llundain

Llongyfarchiadau gwresog i Annest ym mlwyddyn 13, am dderbyn cynnig di amod yng Ngholeg Brenhinol Llundain. Bydd Annest yn cychwyn y cwrs 4 mlynedd ym mis Medi lle fydd yn canolbwyntio yn benodol ar berfformio gan gynnwys perfformio unigol, perfformio o fewn grwpiau siambr a cherddorfa yn ogystal â'r ochr academaidd. Er bod chwaer Annest, Awen hefyd wedi cael ei derbyn i astudio yng Ngholeg Brenhinol Llundain mae wedi penderfynu derbyn ysgoloriaeth i astudio'r delyn yng Ngholeg Brenhinol yr Alban. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonom. Edrychwn ymlaen at glywed llwyddiannau a datblygiadau cerddorol y ddwy chwaer.

Congratulations to Annest for gaining and unconditional offer to study the harp at the Royal College of Music, London. Annest will commence the four year Undergraduate Batchelor of music course in September. The course will primarily focus on performing, including solo performance, chamber groups and orchestral playing. Even though Annest's sister, Awen was also offered an unconditional offer to study the harp at the Royal College she has decided to accept a scholarship to study the harp at the Royal Conservatoire of Scotland. Congratulations to you both. We very much look forward to hearing your successes in the near future.

Eisteddfod T

Mae disgyblion Ysgol y Preseli wedi bod yn brysur dros yr wythnosau diwethaf yn paratoi eitemau unigol ac ensemble ar gyfer yr Eisteddfod T. Diolch i'r adran gerdd am helpu'r disgyblion paratoi ac i annog nhw i gystadlu. Gobeithio cawn lwyddiant dros hanner tymor y Sulgwyn.

Ysgol y Preseli pupils have been very busy over the past few weeks preparing various solo and ensemble items for the Eisteddfod T. Thank you to the music department for encouraging our pupils to perform and for helping them prepare. Let's hope we have some success when the results are shared during May half term.

Gwasanaeth Cerdd Sir Benfro / *Pembrokeshire Music Service*

Ers mis Chwefror mae athrawon Gwasanaeth Cerdd Sir Benfro wedi bod yn cynnig gwersi byw i'n disgyblion trwy TEAMS. Hoffwn ddiolch i holl athrawon y gwasanaeth am barhau i gefnogi ein disgyblion yn ystod y cyfnod clo yma.

Since February the staff from Pembrokeshire Music Service have provided live lesson for our pupils through TEAMS. We would like to thank the staff of the Music Service for continuing to support our pupils throughout this period.

Yr Adran Ddigidol / Digital Department

Ar ddydd Sadwrn 16eg a Dydd Sul 17eg o Ionawr cafodd Sara Symmons a Cerys Jones cyfle i gymryd rhan yn rownd derfynol her MATRIX. Roedd disgyblion o bob oedran hyd at 18 mlwydd oed yn cystadlu.

Enillodd Sara a Cerys o flwyddyn 9 y cyfle i gystadlu yn y rownd derfynol. Cafodd Sara a Cerys Microbit am gyrraedd y rownd derfynol. Trefnwyd yr her gan adran atal troseddu seiber, Heddlu de Cymru.

Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw a phob lwc yn y dyfodol wrth i chi parhau i gystadlu ym myd cyfrifiadureg.

Diolch yn fawr iawn i Mrs Catrin Jones am ei chymorth gyda'r paratoadau.

On Saturday 16th and Sunday the 17th of January two pupils from year 9 took part in the MATRIX Challenge. The competition was arranged by the cyber-crime unit, South Wales Police. Sara Symmons and Cerys Jones were competing against pupils of all ages up to the age of 18. Sara and Cerys managed to reach the final round. They were awarded a Microbit for their efforts. Congratulations and gook luck for the future. Hopefully Cerys and Sara will continue to compete in the computer science competitions. Thank you to all the pupils and parents for their enthusiasm, devotion and efforts.

Many thanks to Mrs Catrin Jones for assisting with the arrangements on the day.

Newydd

New

TGAU TECHNOLEG DDIGIDOL Pam dewis CBAC TGAU mewn Technoleg Ddigidol? Mae cymhwyster TGAU CBAC mewn Technoleg Ddigidol yn gymhwyster eang sy'n galluogi dysgwyr i adeiladu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddigidol a ddefnyddir yn eu bywydau yn yr ysgol a'u bywydau bob dydd. Bydd y cymhwyster yn galluogi dysgwyr i feithrin eu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o systemau technoleg ddigidol a ddefnyddir yn ein cymdeithas gysylltiedig â byd-eang. Bydd hefyd yn galluogi dysgwyr i archwilio natur ddatblygol systemau technoleg ddigidol a sut y gellir defnyddio'r systemau hyn mewn ffordd gynhyrchiol, greadigol a diogel.

GCSE IN DIGITAL TECHNOLOGY. Why choose WJEC GCSE in Digital Technology? The WJEC GCSE qualification in Digital Technology is a broad-based qualification that allows learners to build on the digital skills, knowledge and understanding that is used in their school and everyday lives. The qualification will allow learners to develop their understanding of the range of digital technology systems at use in our connected and globalised society. It will also allow learners to explore the ever-evolving nature of digital technology systems and how these systems can be used productively, creatively and safely.

Dylunio a Thechnoleg / Design and Technology

Fel rhan o'r Eisteddfod ysgol eleni cynhaliwyd cystadleuaeth coginio. Y dasg a osodwyd i'r disgyblion oedd creu saig ar y thema 'Coch, Gwyn a Gwyrdd'. Cafwyd ymateb gwych a llongyfarchiadau i'r isod am gipio'r gwobrau.

A cookery competition was held as a part of the school Eisteddfod this year. The set task was to create a dish on the theme 'Red, White and Green'. We had a great response and congratulations to the following on their winning work.

1af—Hawys James 2il—Zoe Thomas 3ydd—Millie-Mai Evans

Yn dilyn llwyddiant y gystadleuaeth coginio penderfynwyd gosod 'Her Coginio' i'r disgyblion yn ystod y cyfnod clo fel gweithgaredd hwylus i'w gwblhau os oeddent yn dymuno. Thema'r her gyntaf oedd creu saig Gymreig - naill a'i saig draddodiadol neu saig oedd yn cynnwys cynhwysion Cymreig. Cafwyd ymateb arbennig a dyma'r rhai cafodd eu gwobrwyo yn 'Pen Pobydd' o fewn bob blwyddyn.

Following the success of the Eisteddfod cookery competition a 'Cookery Challenge' was set during the lockdown as an alternative activity for pupils to complete if they wished. The theme for the first challenge was to prepare a dish that reflected Wales—either a traditional dish or a dish containing Welsh produce. The response was wonderful and here are the 'Star Bakers' from each year.

Bl 7 Awen Lewis Bl 8 Haydn Ditcher Bl 9 Gwilym Rees Bl 10 Carys Balfour Bl 11 Seren Lewis
Bl 12 Alice Poole

Llongyfarchiadau i bawb!! *Congratulations everyone!!*

Llythrennedd / Literacy

Calendr Clonc

Er mwyn annog sgwrs, treialom 'Galendr Clonc' gyda Blwyddyn 7. Daeth degau o fideos i law drwy Flipgrid bob dydd yn ystod mis Ionawr. Bu'r disgyblion yn trafod cwestiynau mawr a bach ac roedd clywed eu syniadau wir yn codi gwên. Diolch i bawb am gymryd rhan.

In order to encourage some discussion, we trialled our 'Calendr Clonc' (Chatty Calendar) with Year 7. Dozens of videos were submitted through Flipgrid every day during January. The pupils discussed big and small questions and hearing their ideas bought a smile to our faces. Thank you to everyone for taking part.

Podlediad y Preseli

Manon, Leisa a Fflur o flwyddyn 11 sydd wedi bod wrth y llyw ar gyfer y podlediadau cyntaf, ac mae tipyn o sbort i gael yng nghwmni'r tair. Maent eisoes wedi dod i 'nabod Miss Williams a Mr Richmond yn well, wedi dysgu tamed o Eidaleg a dod i wybod beth yw hoff flas pancos blwyddyn 7. Y bwriad yw cynhyrchu podlediad bob hanner tymor, ac mae Begw a Hâf o flwyddyn 10 eisoes wedi gwneud cais am gyllid oddi wrth Den y Dreigiau er mwyn cael hyfforddiant oddi wrth 'Y Pod' ar sut i gynhyrchu podlediadau proffesiynol. Cofiwch wrando ar y podlediad nesaf!

Manon, Leisa & Fflur from year 11 presented the first podcasts, and it's safe to say that they are doing a fantastic job. They've chatted to Miss Williams and Mr Richmond, learnt some Italian and heard about Year 7's favourite pancake toppings. Begw and Hâf from year 10 have already faced the Siarter Iaith Dragon's Den, in the hope of securing the finances to invite 'The Pod' to school to help us create professional podcasts every half term. Remember to listen to the next podcast!

Diwrnod y Llyfr/World Book Day

Rydych chi wedi clywed am 'The Masked Singer' ond beth am 'Ddarllenwyr Dirgel' y Preseli? Bu disgyblion CA3 wrthi'n dyfalu pwy oedd tu ôl i'r mygydau yn darllen eu hoff lyfrau. Da iawn i bawb wnaeth ddyfalu'n gywir a diolch i'r athrawon am rannu eu fideos.

You've heard of 'The Masked Singer' but how about Preseli's 'Masked Readers'? As part of our World Book Day celebrations KS3 had to guess who was reading their favourite book behind the masks. Well done to everybody who guessed correctly and thank you to all the teachers for sharing their videos.

Canolfan Iaith / Welsh Language Centre

Canu Calennig

Eleni eto, ar ddechrau'r flwyddyn, cafodd y plant gyfle i flasu'r traddodiad o ganu Calennig ond ar lein. Hen draddodiad o ddymuno blwyddyn newydd dda o gwmpas rhai ardaloedd yng Nghymru yw hwn.

At the beginning of this year, the children had the opportunity to sing Calennig on line. This is an old Welsh tradition of wishing a happy new year to the people in the community and receiving small gifts in return.

Dydd Miwsig Cymru

Dathlwyd dydd Miwsig Cymru trwy wneud chwileiriau, gwrando ar fandiau ac artistiaid Cymraeg cyfoes a chystadlu mewn cwis Kahoot. Roedd pawb yn cytuno bod cerddoriaeth Gymraeg yn cŵl! Hoff fand disgyblion y Ganolfan oedd Candelas!

Welsh Language Music day was celebrated by listening to Welsh bands and artists, doing wordsearches and competing in a Kahoot quiz. The pupils enjoyed listening to the different bands and voted Candelas their favourite band.

Dydd Gŵyl Dewi

Dysgwyd am Ddewi Sant a'r traddodiad o ddathlu dydd Gŵyl Dewi ar Fawrth 1af. Roedd y gweithgareddau yn cynnwys dysgu'r Anthem Genedlaethol, coginio pice ar y maen adre a gwneud baneri Cymru. Braf oedd gweld nifer wedi gwisgo crys coch ac yn dathlu adre.

Pupils learnt about the teachings of Saint David and the traditions of celebrating St David's day by learning the Welsh National Anthem, cooking Welsh Cakes at home and making Welsh flags. They joined on-line lessons in their red shirts and celebrated at home.

Pontio Bl 6 / Yr 6 Transition

Mae disgyblion blwyddyn 6 ysgolion cynradd y dalgylch yn parhau i ddilyn rhaglen bontio rhithiol gan wneud gweithgareddau i ddod i adnabod ei gilydd ar Hwb a chystadlu mewn cwisiau Kahoot. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys coginio fflapjacs, creu lampau lafa a helfa drysor siapiau.

Dathlwyd Dydd Santes Dwynwen, Dydd Miwsig Cymru, Dydd Gŵyl Dewi Sant a Diwrnod y Llyfr yn rhithiol.

Edrychwn ymlaen at groesawu'r disgyblion i Ysgol y Preseli yn y dyfodol.

Llun 'Orielodl' gan un o'r Pontwyr i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi:

An 'Orielodl' picture by one of our transition pupils to celebrate St David's day:

Year 6 Pupils from the area have continued participating in a digital transition programme, taking part in activities to get to know each other on Hwb and competing in Kahoot quizzes. The activities have included cooking flapjacks, making lava lamps and a shape treasure hunt.
Diwrnod Santes Dwynwen, Dydd Miwsig Cymru, Dydd Gŵyl Dewi and World Book day were celebrated on line.

We look forward to welcoming the pupils to Ysgol y Preseli in the future.

MEDDYLFRYD O DWF: DATGANIADAU

Gallaf newid fy meddylfryd gyda fy ngeiriau!



YN HYTRACH NA:		GALLAF DDWEUD:
Dwi ddim yn dda yn hyn.	1	Nid wyf yn dda yn hyn ETO, ond byddaf yn dysgu.
Rwy'n wych yn hyn.	2	Fe wnes i ymarfer a dysgu sut i wneud hyn.
Mae hyn yn rhy anodd.	3	Bydd angen ymdrech i ddod o hyd i'r strategaeth gywir.
Rwy'n ofni gwneud camgymeriad.	4	Gwneud camgymeriadau yw'r ffordd orau o ddysgu.
Rwy'n barod i ildio.	5	Gallaf lwyddo drwy ddod o hyd i well strategaeth.
Rwy'n methu gwneud hyn.	6	Mae angen i mi ofyn am help ac adborth.
Mae'n ddigon da.	7	Ai dyma fy ngwaith gorau? A allaf ei wella?
Dwi ddim am geisio rhag ofn y byddai'n methu.	8	Os byddaf yn methu, gallaf geisio eto nes i mi lwyddo
Maen nhw'n fwy clyfar na fi.	9	Beth alla i ddysgu wrthyn nhw?
Dydw i ddim yn dda ym Mathemateg.	10	Rydw i'n mynd i hyfforddi fy ymennydd ym Mathemateg.

MY GROWTH MINDSET STATEMENTS

I can change my mindset with my words!



INSTEAD OF:		I CAN SAY:
I'm not good at this.	1	I'm not good at this YET, but I will learn.
I am great at this.	2	I practised and learned how to do this.
This is too hard.	3	This will need effort to find the right strategy
I'm afraid I'll make a mistake.	4	Mistakes are how we learn best.
I give up.	5	I will succeed if I find a better strategy.
I can't do this.	6	I need to ask for some help and feedback.
It's good enough.	7	Is it my best work? Can I improve it?
I won't try because I might fail.	8	If I fail, I can try again until I succeed.
They're smarter than me.	9	What can I learn from them?
I'm not good at Maths.	10	I'm going to train my brain in Maths.

LLES A GOFAL Y DISGYBL

CARE AND WELL-BEING OF PUPILS

Hoffwn eich cyfeirio at y restr isod:

Please find below some important contact details:

Childline: 0800 1111 – www.childline.org.uk

Kidscape: 02077 303300 – www.kidscape.org.uk

Bullying online: 0808 800 222 – www.bullying.co.uk

Stop Bullying: www.stopbullying.co.uk

Samariad/Samaritans: 0808 164 0123 – www.samaritans.org

Wisekids: www.wisekids.org

Meic: 0808 802 3456

Cwnselydd ysgol / School Counsellor:

school.counsellor@pembrokeshire.gov.uk

01437 776473

Swyddogion Diogelu/Safeguarding officers:

Mrs Catrin Jones

Mrs Carwen Morgan Davies